Gwybodaeth i gyfranogwyr

EXPO-ENGAGE: hwyluso cyfranogi ynglŷn â mesur ansawdd yr aer

Rydyn ni'n eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil academaidd. Cyn penderfynu a hoffech chi fod yn rhan o'r astudiaeth hon, mae'n bwysig deall pam rydyn ni'n cynnal yr ymchwil a'r hyn y byddwn ni'n gofyn ichi ei wneud ynddi. Felly, darllenwch yr wybodaeth ganlynol yn ofalus.

Diben yr ymchwil

Nod yr ymchwil yw hel sylwadau pobl am ansawdd aer eu bro a'u rhan nhw ynghylch ei fesur. Ystyr mesur ansawdd yr aer yw defnyddio offer i gofnodi lefelau llygredd aer. Byddwn ni'n defnyddio'r canlyniadau wrth baratoi cynllun ymchwil i gynnwys cymunedau ar gyfer mesur ansawdd yr aer yng Nghaerffili.

Pwy sy'n cynnal yr ymchwil?

Dr Jo Garrett yw'r prif ymchwilydd. Mae hi'n gweithio yn y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd a Dynol, Prifysgol Caerwysg. Mae ymchwilwyr eraill ar y prosiect yn cynnwys Dr Sian de Bell (Prifysgol Caerwysg), Dr Rachel Hale (Prifysgol Caerdydd) a George Kirkham (Prifysgol Caerwysg).

Beth mae angen ei wneud yn ystod yr ymchwil?

Mae'r arolwg ar ffurf 20 cwestiwn am eich barn am ansawdd aer a sut mae'n cael ei fesur, and mae rhai cwestiynau ychwanegol amdanoch chi i'n helpu ni i ddeall pwy sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Bydd yn cymryd tua phum munud i gwblhau'r holiadur.

Buddion a pheryglon ynglŷn â chymryd rhan

Efallai na fydd cymryd rhan yn yr ymchwil hon o fudd uniongyrchol neu bersonol ichi. Gall fod o fudd i'n cymdeithas ac i'ch cymuned, er na allwn ni warantu hynny ddechrau'r prosiect ymchwil. Fydd yn yr ymchwil ddim peryglon ychwanegol at y rhai a allai godi yn eich bywyd beunyddiol.

Dyma ragor o wybodaeth am ansawdd aer:

Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
https://www.caerphilly.gov.uk/services/environmental-health-and-pollution/pollution/air-quality

Gwefan Ansawdd Aer Cymru
https://airquality.gov.wales/

Cymryd rhan o'ch gwirfodd a'ch hawl i dynnu yn ôl

O'ch gwirfodd y byddwch chi'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Does dim gofyn ichi gymryd rhan ac fe gewch chi roi'r gorau iddi unrhyw bryd. Os penderfynwch chi dynnu yn ôl cyn llenwi'r holiadur i gyd, fyddwn ni ddim yn cadw'r wybodaeth roesoch chi. Os tynnwch chi allan ar ôl cyflwyno'ch atebion, byddwn ni'n gallu dileu'ch data ar yr amod eich bod wedi rhoi'ch enw a manylion cysylltu â chi. Efallai na fydd modd gwneud hynny os ydych chi wedi dewis llenwi'r holiadur heb roi'ch enw. Fydd dim modd dileu unrhyw ddata sydd wedi'u cyhoeddi neu eu lledaenu.

Anhysbysrwydd

Cewch chi lenwi'r holiadur heb roi'ch enw na manylion cysylltu â chi. Os ydych chi am ddysgu rhagor am y prosiect, mae cyfle ichi roi'ch cyfeiriad ebost.

Sut y byddwch chi'n cadw fy ngwybodaeth yn gyfrinachol?

Bydd tîm y prosiect yn cadw'ch atebion yn gyfrinachol. Dim ond aelodau'r tîm fydd yn cael gweld a phrosesu'r atebion hynny. Byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn sustem y brifysgol a dim ond i dîm y prosiect y bydd ar gael. Bydd y storio'n cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data, Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data a gofynion Prifysgol Caerwysg ynglŷn â data a'r gyfraith. Bydd fersiwn dienw o'r data (heb fanylion cyswllt) ar gael trwy'r we dros y tymor hir yn ôl amodau Open Access.

Mae Prifysgol Caerwysg yn prosesu data personol ar gyfer ymchwil sydd o les i'r cyhoedd. Fe fydd y brifysgol yn ceisio bod yn dryloyw ynghylch ei ffordd o brosesu'ch data personol a dylai hyn o daflen esbonio hynny'n eglur. Ynglŷn ag unrhyw ymholiadau na all aelodau'r tîm eu hateb am sut y bydd y brifysgol yn prosesu'ch data personol, cewch chi ragor o wybodaeth trwy anfon neges at ei swyddog dros ddiogelu data (dataprotection@exeter.ac.uk) neu ddarllen www.exeter.ac.uk/dataprotection.

Canlyniadau'r ymchwil hon

Byddwn ni'n defnyddio'r canlyniadau wrth baratoi cynllun ymchwil i gynnwys cymunedau ar gyfer mesur ansawdd yr aer yng Nghaerffili. Fe fyddwn ni'n cyhoeddi neu'n trafod y canlyniadau mewn papurau a chyflwyniadau academaidd, hefyd. Ar ben hynny, byddwn ni'n ysgrifennu blogiau ac yn lledaenu'r canlyniadau trwy gyfryngau cymdeithasol.

Pwy sy'n noddi'r astudiaeth hon?

Cronfa Rhwydweithio Cyfundrefnau Cyngor Ymchwil Ynni'r Deyrnas Gyfunol sy'n noddi'r ymchwil hon: https://ukerc.ac.uk/research/wsnf/

Adolygiad moesegol o'r ymchwil hon

Mae'r astudiaeth wedi'i hadolygu gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Iechyd y Cyhoedd a Gwyddor Chwaraeon Prifysgol Caerwysg (cyfeirnod: 846766).

Os ydych chi'n anfodlon ar unrhyw ran o'r prosiect, a chithau am gwyno, cysylltwch â'r Dr Anthony Walsh, Pennaeth Llywodraethu, Moeseg a Chydymffurfio Ymchwil (A.Walsh3@exeter.ac.uk, 01392 726621).